# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary
# 10/10/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Gweithredu Nodyn Cyngor Technegol 15
### The Implementation of Technical Advice Note 15

**Q11 Rhodri Glyn Thomas:** What discussions has the First Minister had on the implementation of 'Technical Advice Note 15: Development and Flood Risk'? OAQ1892(FM)

**C11 Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Weinidog ar weithredu 'Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a'r Risg o Lifogydd'? OAQ1892(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** The implementation of TAN 15 will ensure that important considerations of flood risk are taken into account in dealing with future planning applications.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Bydd gweithredu TAN 15 yn sicrhau y caiff ystyriaethau pwysig o ran y risg o lifogydd eu hystyried wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio yn y dyfodol.

### Cyllid Cyfalaf
### Capital Funding

**Q12 Peter Black:** Will the First Minister make a statement on capital funding for school repairs? OAQ1903(FM)

**C12 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid cyfalaf ar gyfer atgyweirio ysgolion? OAQ1903(FM)

**The First Minister:** Funding of £150 million annually is being provided for investment in school buildings. Including other sources of capital, spend is expected to total £660 million over the period 2004-05 to 2007-08, which is significantly ahead of our manifesto commitment of providing £560 million during the lifetime of this Assembly.

**Y Prif Weinidog:** Darperir £150 miliwn yn flynyddol i'w fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion. Yn ogystal â ffynonellau eraill o arian, disgwylir i gyfanswm o £660 miliwn gael ei wario rhwng 2004-05 a 2007-08, sy'n llawer mwy na'r ymrwymiad yn ein maniffesto o ddarparu £560 miliwn yn ystod y Cynulliad hwn.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ1894(FM), yn ôl.*
*Question 13, OAQ1894(FM), was withdrawn.*

**Q14 Ieuan Wyn Jones:** When did the First Minister last meet the Chancellor of the Exchequer to discuss the next comprehensive spending review as it affects Wales? OAQ1884(FM)

**C14 Ieuan Wyn Jones:** Pryd y cyfarfu'r Prif Weinidog ddiwethaf â Changhellor y Trysorlys i drafod yr adolygiad cynhwysfawr nesaf o wariant a sut y bydd yn effeithio ar Gymru? OAQ1884(FM)

**The First Minister:** I have had no such meeting.

**Y Prif Weinidog:** Ni chefais gyfarfod o'r fath.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ1881(FM), yn ôl.*
*Question 15, OAQ1881(FM), was withdrawn.*